

Y Trefniadau Pontio Ewropeaidd

DIBEN

1. Rhoi diweddariad i'r Cyngor Partneriaeth ar ddatblygiadau yn ymwneud â Brexit

CEFNDIR

2. **Diogelu Dyfodol Cymru:** Trwy ein Papur Gwyn a'n dogfennau polisi dilynol, rydym wedi cyhoeddi tystiolaeth, dadansoddiadau a chynigion manwl ar gyfer Brexit a fyddai'n diogelu swyddi ac economi Cymru.
3. Ymhlith ein blaenoriaethau ar gyfer Brexit mae: mynediad llawn a dirwysr i'r Farchnad Sengl – gallu cymryd rhan mor gyflawn â phosibl mewn ffordd sy'n gyson â pheidio â bod yn aelod-wladwriaeth bellach – a chymryd rhan mewn Undeb Tollau; tegwch o ran symudiad pobl – cadw'r egwyddor o symudiad teg o ran llafur a chysylltu hyn â gorfodi'n fwy cadarn fesurau i atal achosion o gam-fanteisio ar weithwyr; sicrhau bod Cymru yn cael iawndal am golli cyllid Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n seiliedig ar angen; newid cyfansoddiadol i sicrhau bod pob rhan o'r Deyrnas Unedig (DU) yn gallu gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol pan na fydd fframweithiau cyfreithiol yr UE yn gymwys bellach; cadw'r mesurau diogelu cymdeithasol, amgylcheddol, cyflogaeth, ac i ddefnyddwyr, yr ydym yn elwa arnynt ar hyn o bryd a pharhau i gymryd rhan yn rhaglenni'r UE sy'n agored i wledydd nad ydynt yn Aelod-wladwriaethau i osgoi sefyllfa o 'syrthio dros y dibyn' ym mis Mawrth 2019.
4. Cafodd ein gweledigaeth ar gyfer perthynas gyfansoddiadol sy'n sylfaenol wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU ei hamlinellu yn **Brexit a Datganoli**. Yn **Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl**, amlinellom ein cynigion ar gyfer system fudo newydd sy'n creu cyswllt agosach rhwng mudo â chyflogaeth. Yn **Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit**, amlinellom ein galwad i Lywodraeth Cymru barhau'n gyfrifol am gyllid rhanbarthol a phenderfyniadau ar ôl Brexit, gan sicrhau nad yw Cymru'n colli ceiniog o gyllid, a dechreusom ymgynghori ar sut fyddai orau i ddefnyddio buddsoddiad yn rhanbarthau Cymru. Trwy ein papur **Y Polisi Masnachu: materion Cymru**, amlinellom ein cynigion ar gyfer masnachu gyda'r UE ôl-Brexit a chyflwyno'r ddadl pam y dylai'r DU yn cadw mynediad llawn a di-rwysr i'r Farchnad Sengl Ewropeaidd ac aelodaeth o undeb dollau. Yn ein dogfen ymgynghori fyw, **Brexit a'n Tir**, amlinellom Raglen Rheoli Tir newydd i gefnogi ffermwyr Cymru ôl-Brexit, a disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Yn olaf, mae **Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit** yn galw am newid radical yn y ffordd y mae gwledydd y DU yn cael eu hariannu. Mae'n nodi cynigion ar gyfer cynllunio system ariannu newydd a fydd yn gwarantu buddsoddiad teg a pharhaus yng Nghymru ac yng ngweddill y DU.

5. **Deddfwriaeth:** Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu her ddeddfwriaethol fawr yn sgil Brexit wrth inni fynd i'r afael â'r dasg o ddisodli 40 mlynedd o gyfreithiau'r UE, drwy weithredu ar y cyd â Whitehall a thrwy ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain. Ar 13 Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (a oedd yn cael ei adnabod fel y Bil Diddymu Mawr cyn hyn), i drosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig adeg ymadawiad y DU â'r UE. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn glir nad oedd y Bil fel y'i drafftiiwyd yn dderbyniol, gan gydnabod ar yr un pryd fod angen cytuno ar reolau cyffredin ar draws y DU yn lle rheolau presennol yr UE mewn rhai meysydd cyfyngedig. Cafodd y Bil ei ddatblygu heb ymgynghori'n briodol â Llywodraeth Cymru ac nid oedd y darpariaethau'n dderbyniol. Roedd y Bil fel y'i drafftiiwyd yn wreiddiol yn rhoi cyfyngiadau newydd sylweddol ar allu'r Cynulliad i ddeddfu'n effeithiol ar ôl Brexit ar faterion y mae Brwsel yn delio â hwy ar hyn o bryd; roedd cyfraith bresennol yr UE yn mynd i gael ei rhewi, a dim ond gan Senedd y DU y byddai'r pŵer i'w dadrewi. Roedd Gweinidogion Cymru yn glir y byddent yn mynd ati'n ddiflino i wrthwynebu'r Bil. Ar ôl misoedd o drafodaethau dwys, cyhoeddwyd ar 24 Ebrill eleni fod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau newidiadau sylweddol i'r Bil sy'n diogelu datganoli. Daeth Gweinidogion Cymru i gytundeb â Llywodraeth y DU ar ei Bil arfaethedig gyda'r meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli yn parhau felly, a Chytundeb Rhynglywodraethol ffurfiol sy'n cynnwys ymrwymadau gan Lywodraeth y DU i ddatblygu deddfwriaeth ar y cyd. Cafodd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 Gydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin.
6. Wrth i'r trafodaethau gael eu cynnal â Llywodraeth y DU ynghylch ei Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), amlinellasant gynlluniau i gyflwyno Bil Argyfwng i ddiogelu datganoli. Cafodd cynlluniau ar gyfer y Bil Parhad – a arferai gael ei galw y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) – eu cyhoeddi ar 27 Chwefror 2018. Ar 21 Mawrth, pleidleisiodd mwyafrif sylweddol o Aelodau'r Cynulliad o blaid y Bil Parhad. Wedi i'r cyfeiriad at yr Uchel Lys gael ei dynnu'n ôl, cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 6 Mehefin 2018 (a dod yn Ddeddf felly). Yn unol â'r Cytundeb Rhynglywodraethol, mae camau wedi cael eu cymryd i ddechrau ar y broses o ddirymu'r Ddeddf, a bydd y broses honno yn dod i ben yn yr hydref o bosibl.
7. Disgwylir i Fil y Cytundeb Ymadael gael ei gyflwyno yn Senedd y DU os a phan fydd Llywodraeth y DU a'r 27 o aelod-wladwriaethau'r UE yn cytuno ar destun y Cytundeb Ymadael ac ar ôl 'pleidlais ystyrion' yn Nhŷ'r Cyffredin i gymeradwyo'r cytundeb. Byddai rhaid i'r Bil ddod i effaith erbyn 29 Mawrth 2019. Mae hyn yn golygu cryn her o ran yr amserlen seneddol. Mae rhwystrau sy'n tarfu ar lif gwybodaeth hefyd wedi cyflwyno her, yn arbennig mewn perthynas â phenderfyniadau polisi a drafftio ac wrth ymgynghori â rhanddeiliaid.
8. **Fframweithiau Cyffredin y DU:** Wrth i'r DU ymadael â'r UE, bydd ystod eang o bwerau sy'n gweithredu dan gyfraith yr UE ar hyn o bryd a fydd yn galw am wneud penderfyniadau newydd ar y cyd ar draws y DU. Bydd angen cryfhau systemau rhynglywodraethol y DU yn sylweddol felly. Mae gwaith ar y gweill nawr gyda'r pedair gweinyddiaeth yn gweithio i ddiffinio'r trefniadau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol angenrheidiol, a disgwylir iddo barhau dros y ddwy flynedd nesaf.

9. **Negodiadau:** Ar 6 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod "wedi dod i gytundeb" ar ei safbwynt ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol ar ôl Brexit. Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn, '*The future relationship between the United Kingdom and the European Union*'. Mae'r Papur Gwyn yn newid cyfeiriad sylweddol sy'n symud oddi wrth eu llinellau coch tuag at y sefyllfa negodi a amlinellwyd gennym ym mis Ionawr y llynedd. Mae'r dull yn sail i ddechrau cynnal trafodaethau mwy difrifol.
10. Rydym yn parhau i bwysleisio bod angen ymgysylltu'n fwy ystyrlon â Llywodraeth y DU i ddatblygu safbwynt polisi a negodi mewn perthynas â'r UE. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag agweddau ar Brexit sy'n effeithio ar gymwyseddau datganoledig. Rydym yn dadlau o hyd mai'r ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys y Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ymgymryd â busnes parhaus yr UE yn y gorffennol ddylai lywio'r dull o negodi perthynas y dyfodol. Mae rhai meysydd lle buasem yn disgwyl chwarae rôl weithgar iawn i lunio safbwynt y DU ac yn y negodiadau – byddai'r rhain yn bendant yn cynnwys amaethyddiaeth, bwyd, pysgodfeydd, datblygu economaidd, a'r amgylchedd – ond gallent hefyd gynnwys amrywiaeth ehangach o feysydd eraill.
11. Mae trafodaethau ynglŷn â safbwyntiau'r DU yn y negodiadau ar y berthynas yn y dyfodol â'r UE yn cael eu cynnal mewn corff newydd, y Fforwm Gweinidogol sy'n adrodd i Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd). Y Gweinidog Tai ac Adfywio yw Gweinidog Arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Fforwm.
12. **Parodrwydd:** Mae amser yn prinhaus, ac mae ansicrwydd mawr o hyd gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'r hyn y maen nhw am ei gael o Brexit a manylion sut y maent yn meddwl ei weithredu. Mae hyn yn amlwg yn arwain at ddyfalu cynyddol y gallai'r DU ymadael â'r UE heb ddod i gytundeb. Byddai canlyniad o'r fath yn fethiant gwleidyddol trychinebus, gan arwain at fygythiadau sylweddol iawn i ffyniant a llesiant pobl Cymru ac, yn wir, y DU yn gyfan. Er gwaethaf ein argyhoeddiad cryf bod rhaid dod i gytundeb, mae cyfrifoldeb arnom i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb, yn yr un modd ag y byddem yn paratoi ar gyfer unrhyw drychineb sydd y tu hwnt i'n rheolaeth i'w atal. Y gwir yw, fodd bynnag, na all Cymru baratoi ar gyfer Brexit wrth ei hun. Mae ein gallu i gynllunio ymlaen yn cael ei gyfyngu gan yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei rannu â ni. Mae angen inni wybod beth yw eu cynlluniau manwl ar gyfer amrywiol faterion, fel y gwiriadau newydd ar y ffin mewn porthladdoedd. Rydym wedi codi dro ar ôl tro, gan fod yn bendant wrth wneud hynny, y ffaith bod angen i Lywodraeth y DU rannu gwybodaeth yn briodol am barodrwydd gweithredol.
13. Ar 23 Awst eleni, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y casgliad cyntaf mewn cyfres o "**Hysbysiadau Technegol**" sy'n cynnwys cyngor i fusnesau, dinasyddion a chyrff cyhoeddus am yr hyn y dylid ei wneud os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Pan fo'r hysbysiadau yn ymwneud â materion y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdanynt, byddwn, lle bo angen, yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'n rhanddeiliaid. Rydym wedi croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi trafod mwy gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig

wrth ddatblygu'r hysbysiadau hyn a'r cynlluniau wrth gefn os na fydd cytundeb; ond byddai modd i'r DU wneud llawer mwy i weithio gyda ni fel partner mewn llywodraeth.

14. Cyhoeddassom ein Cronfa Bontio'r UE gwerth £50 miliwn yn gynharach eleni. Cafodd y Gronfa ei sefydlu i helpu busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau partner eraill yng Nghymru i gynllunio a pharatoi ar gyfer effeithiau Brexit. Mae'r Gronfa newydd hon yn rhan o'n cynlluniau ar gyfer Brexit i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i baratoi at y newidiadau sylweddol sydd o'n blaenau. Rydym yn chwilio am ffyrdd newydd o gefnogi sefydliadau partner trwy Brexit, ac yn ystyried pa gyngor, canllawiau a chymorth ariannol y gallwn eu darparu i'w helpu i ddelio â'r newid hwn.
15. **Llywodraethiant:** Mae Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn rhoi cyfeiriad strategol ac yn sicrhau bod penderfyniadau polisi allweddol yn cael eu gwneud i sicrhau'r canlyniad gorau i bobl Cymru wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae Grŵp o Swyddogion y Trefniadau Pontio Ewropeaidd sy'n cynrychioli adrannau ar draws Llywodraeth Cymru yn cefnogi Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.
16. Mae'r Grŵp Cyngori ar Ewrop allanol yn cyngori Llywodraeth Cymru ar y goblygiadau i Gymru pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Rydym hefyd yn ymgysylltu â is-grŵp Brexit Cyngor Datblygu'r Economi, Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, Grŵp Rhanddeiliaid Bord Gron Brexit yr Amgylchedd a Materion Gwledig, rhanddeiliaid Iechyd a Gofal, Cydffederasiwn GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gweithgor Brexit Addysg Uwch, a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, ac yn eu cynnwys.
17. Mae fforymau rhynglywodraethol yn cynnwys Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Negodiadau'r UE, y Fforwm Gweinidogol ar Negodiadau'r UE, gweithgorau technegol ar lefel swyddogion ar safbwyntiau negodi'r DU, sy'n bwydo i mewn i'r Fforwm Gweinidogol ar Negodiadau'r UE, Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop, a thrafodaethau ar lefel swyddogion ar Fframweithiau cyffredin y DU (sy'n cael eu hadnabod hefyd fel trafodaethau manwl) ymhlith eraill.

TRAFODAETH

18. Cafodd aelodau Cyngor y Partneriaeth eu gwahodd i ystyried effaith Brexit ar fusnes, gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector Cymru a chyfrannu at y gwaith sy'n parhau i ystyried deddfwriaeth, negodiadau ac yn arbennig pa mor barod ydym yn weithredol wrth i Gymru a'r DU ymadael â'r UE.

CAM GWEITHREDU

19. Gwahoddir aelodau'r Cyngor Partneriaeth i nodi'r diweddariad ar y datblygiadau ar faterion sy'n gysylltiedig â Brexit a amlinellir yn y papur.

**Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
Llywodraeth Cymru**